# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 12 Tachwedd 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### 'Cymru'n Ennill'

**C13 Christine Chapman:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y cynnydd a wnaed o ran rhoi 'Cymru'n Ennill' ar waith? (OAQ20105)

**Y Prif Weinidog:** Mae 'Cymru'n Ennill' ar waith ers tro a chafwyd cryn gynnydd at gyflawni'r 71 o gamau gweithredu yn y cynllun. Er ei fod yn gynnar eto, mae arwyddion addawol ein bod yn gwneud cynnydd yn y gwaith o drawsnewid economi Cymru. Trafodwyd adroddiad hanner blynyddol ar gynnydd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ei gyfarfod ar 31 Hydref 2002. Cyhoeddir adroddiad blynyddol llawn ar gynnydd yn gynnar yn haf 2003.

### Comisiwn yr Arglwydd Richard

**C14 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru ynghylch comisiwn yr Arglwydd Richard ar bwerau'r Cynulliad? (OAQ20121) [W]

**Y Prif Weinidog:** Cafwyd un drafodaeth fer a chyffredinol iawn ar y mater hwn. Comisiwn annibynnol ydyw, ac ni fyddai'n briodol imi nac i Ysgrifennydd Gwladol Cymru geisio rhagweld ei ganfyddiadau.

### Ehangu'r Undeb Ewropeaidd

**C15 John Griffiths:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y goblygiadau i Gymru o ran ehangu'r Undeb Ewropeaidd? (OAQ20111)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf wedi cynnal nifer o drafodaethau gyda chydweithwyr yn Llywodraeth y DU ar ystod eang o faterion Ewropeaidd, gan gynnwys goblygiadau'r ehangu. Cynhaliwyd ein trafodaeth ar y cyd ddiweddaraf ar yr Undeb Ewropeaidd, fis diwethaf yng Nghydbwyllgor y Gweinidogion.